OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 559 (Cy.24)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *23 Chwefror 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *28 Chwefror 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pŵ er a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 32(9) a 33(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) sydd bellach wedi'i freinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru(**2**).

### Enw, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Chwefror 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn effeithiol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2001 ac maent yn gymwys i Gymru yn unig.

### Grant arbennig perthnasol

**2.** Yn lle is-adran (12) o adran 32 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 rhoddir—

> "(12) In relation to Wales, in this section and in section 33 below, "relevant special grant" means the special grant payable in accordance with the special grant report (Special Grant Report (No 2) (Wales) 2001) approved by the National Assembly for Wales pursuant to section 88B of the Act on 6th February 2001."

(**1**) 1992 p. 14. Mewnosodwyd is-adran (12) o adran 32 gan OS 1995/234 a'i amnewid, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 1998, gan OS 1998/213.

(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

23 Chwefror 2001

(**3**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adrannau 32 a 33, yn y drefn honno, o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("y Ddeddf") yn nodi sut mae awdurdod bilio i gyfrifo anghenion ei gyllideb a swm sylfaenol ei dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "relevant special grant" yn adran 32(12) o'r Ddeddf ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2001 mewn perthynas â Chymru yn unig. Mae'r diffiniad yn berthnasol ar gyfer gweithredu adran 32 ac adran 33.

Mae copi o'r adroddiad y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn ar gael oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru.